**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 4 Mehefin 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
C Anderson
P M Black
J E Burtonshaw
M C Child
J P Curtice
N J Davies
A M Day
P Downing
C R Doyle
M Durke
C R Evans
V M Evans
W Evans
E W Fitzgerald
R Francis-Davies
S J Gallagher
L S Gibbard
F M Gordon
K M Griffiths
J A Hale
D W Helliwell
T J Hennegan
C A Holley

**Y Cynghorydd(wyr)**
P R Hood-Williams
B Hopkins
D H Hopkins
L James
O G James
Y V Jardine
J W Jones
L R Jones
M H Jones
P K Jones
S M Jones
E J King
E T Kirchner
M A Langstone
A S Lewis
M B Lewis
R D Lewis
W G Lewis
C E Lloyd
P Lloyd
I E Mann
P M Matthews
P N May

**Y Cynghorydd(wyr)**
H M Morris
D Phillips
C L Philpott
S Pritchard
A Pugh
J A Raynor
C Richards
K M Roberts
B J Rowlands
M Sherwood
P B Smith
R V Smith
A H Stevens
R C Stewart
D G Sullivan
M Sykes
G J Tanner
M Thomas
L G Thomas
W G Thomas
L J Tyler-Lloyd
L V Walton
T M White

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): G D Walker

## 138. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 139. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2020;

2) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020.

## 140. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 141. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Gwobr Genedlaethol StreetGames - Mai 2020

Nododd yr Aelod Llywyddol fod ganddo bleser cyhoeddi bod y Tîm Chwaraeon ac Iechyd wedi cyrraedd y rhestr fer yn ddiweddar ar gyfer dau gategori Gwobrau Cenedlaethol StreetGames y DU. Mae StreetGames yn annog pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i gymryd rhan mewn chwaraeon a gwirfoddoli fel arweinwyr a hyfforddwyr yn eu cymunedau lleol. Mae StreetGames Cymru'n ystyried Cyngor Abertawe fel un o'r awdurdodau arweiniol ar gyfer cyflwyno'r agenda hwn.

Enillodd prosiect Us Girls y categori "Ennyn diddordeb menywod a merched", gydag enillydd y Gemau Olympaidd, Beth Tweddle, yn cyhoeddi'r wobr yn fyw ar-lein. Daeth Prosiect Ieuenctid Trefanseol yn ail yn y categori Hyrwyddo Cynaladwyedd.

Crëwyd prosiect Us Girls i dargedu merched mewn ardaloedd tlawd sy’n cymryd rhan mewn ychydig iawn o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn draddodiadol.Fe’i datblygwyd fel cysyniad gan StreetGames UK a’i gyflwyno'n lleol gan y Tîm Chwaraeon ac Iechyd, ac mae bellach yn cael ei ystyried fel yr

enghraifft orau o frand Us Girls yn y DU a'r prosiect cyffredinol gorau ar gyfer ennyn diddordeb menywod a merched mewn gweithgareddau cadarnhaol drwy chwaraeon.

Cyflwynir prosiect Ieuenctid Trefansel mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr sydd bellach yn rhedeg y clwb yn annibynnol yn dilyn cefnogaeth gychwynnol y cyngor, ac mae'n cynnwys paratoi a bwyta bwyd iach yn ogystal â chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Enillodd prosiect Ieuenctid Trefansel yr ail safle yn y Gwobrau Cenedlaethol.

Diolchodd i Jenna Thomas ac Yasmin Davies am eu gwaith gwych ar y prosiectau hyn a arweiniodd at y gwobrau hyn.

**142. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**1) Diwygiadau i Bortffolios y Cabinet**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi gwneud diwygiadau i Bortffolios y Cabinet a ddaeth i rym o 28 Mai 2020. Cylchredwyd taflen a oedd yn amlinellu'r newidiadau a chaiff y Portffolios newydd eu gosod yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Cylchredwyd y rhestr ddiwygiedig hon ar 2 Mehefin 2020 a chaiff Cyfansoddiad y Cyngor ei ddiweddaru'n unol â hyn. Mae'r rhestr wedi'i diwygio ychydig fel a ganlyn:

**Cymunedau Gwell**
- Ychwanegu "Cyflogadwyedd";
- Ychwanegu "Abertawe'n Gweithio";
- Ychwanegu "Dysgu Gydol Oes".

**Gwella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd**
- Ychwanegu “Cymuned/Cludiant Cyhoeddus
- Ychwanegu "Cynnal a chadw parciau".

**Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth**
- Ychwanegu "Parciau a Datblygu Chwarae".

Mae Portffolios diwygiedig y Cabinet wedi'u hamlinellu isod:

| **Cynghorydd** | **Portffolio'r Cabinet** |
|---|---|
| Rob C Stewart | ➢ **Arweinydd y Cyngor**<br>➢ Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Clive E Lloyd | ➢ Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol |
| Alyson Pugh | ➢ Cymunedau Gwell |
| Andrew H Stevens | ➢ Trawsnewid Busnes a Pherfformiad |
| Sam Pritchard<br>Elliott J King | ➢ Gwasanaethau Plant (Pobl Ifanc - Arweinydd)<br>➢ Gwasanaethau Plant (Y Blynyddoedd Cynnar - |

| | |
|---|---|
| | Arweinydd) |
| David H Hopkins | ➢ Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor<br>➢ Cyflawni a Gweithrediadau |
| Jennifer A Raynor | ➢ Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau |
| Mark Thomas | ➢ Gwella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd |
| Andrea S. Lewis | ➢ **Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor**<br>➢ Cartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau |
| Robert Francis-Davies | ➢ Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth |

## 2) Rhybudd o Gynnig ar gyfer Mentrau sy'n Seiliedig ar Garbon

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y cyngor wedi cytuno ar rybudd o gynnig mewn perthynas â Mentrau sy'n Seiliedig ar Garbon ar 24 Hydref 2019. Fel rhan o'r cynnig, penderfynodd y cyngor y bydd adroddiad yn cael ei lunio o fewn 6 mis; fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, nid yw hyn wedi bod yn bosib.

Nododd ei fod wedi codi'r mater gyda'r Cynghorydd C E Lloyd a'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid a chytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ar 4 Medi 2020. Ymddiheurodd am yr oedi.

## 3) Gwaith yn ystod pandemig COVID-19

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y gwaith wedi parhau yn ystod pandemig COVID-19. Amlinellodd nifer o enghreifftiau o weithio gan gynnwys:

- Yr arena;
- Prosiectau adeiladu mawr yn datblygu;
- Cannoedd o goed, llwyni a phlanhigion wedi'u plannu;

1) Distyllfa wisgi Penderyn ar safle Gwaith Copr yr Hafod;
2) Penseiri'n dylunio dyluniad/cynllun adeilad Theatr y Palas;
3) Dod i gytundeb ar gyfer y gwaith o adfer Neuadd Albert;
4) Mae'r gwaith ar Ffordd y Brenin bron wedi'i gwblhau a bydd yn dychwelyd i draffig dwyffordd yn fuan;
5) Cyhoeddir rhagor o fanylion am Gam 2 Abertawe Ganolog yn fuan gyda chyhoeddiad mawr ynghylch miloedd o swyddi ar gyfer Abertawe;
6) Cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer 71-72 Ffordd y Brenin.

## 4) Diolch i staff/wirfoddolwyr am eu hymateb i COVID-19

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i staff, gwirfoddolwyr a gweithwyr Abertawe am eu gwaith diflino mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae eu gwaith a'u hymrwymiad yn deyrnged i breswylwyr Abertawe.

## 5) Ailddechrau ysgolion

Amlinellodd Arweinydd y Cyngor y broses ar gyfer ailddechrau ysgolion ar ddiwedd Mehefin 2020.

**6) Tracio ac olrhain**

Amlinellodd Arweinydd y Cyngor y gwaith a wnaed eisoes mewn perthynas â thracio ac olrhain. Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**7) George Floyd - Mewn undod ag ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys (BLM)**

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei gydymdeimladau ar ran yr awdurdod mewn perthynas â marwolaeth ddiweddar George Floyd a mynegodd ein hundod ag ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys. Nododd fod Abertawe'n Ddinas Noddfa ac y byddai Neuadd y Ddinas yn goleuo'n borffor nos Sadwrn i ddangos cefnogaeth.

## 143. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 144. Penodi Cadetiaid yr Arglwydd Faer.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyniad a Pherfformiad adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r broses o benodi a manylion rôl Cadet yr Arglwydd Faer a fydd yn dechrau yn mlwyddyn ddinesig 2020-2021.

## 145. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyniad a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer yr enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor. Ychwanegodd hefyd ddiwygiad pellach.

Dywedodd fod Arweinydd y Cyngor wedi gwneud y newidiadau canlynol i aelodaeth cyrff allanol yr awdurdod:

**i) Panel Heddlu a Throseddu De Cymru**

Tynnu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.
Ychwanegu'r Cynghorydd W Evans.

**ii) Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg** (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin gynt)

Tynnu enw'r Cynghorydd M C Child.
Ychwanegu'r Cynghorydd C E Lloyd.

**Penderfynwyd** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Tynnu enw'r Cynghorydd P M Black.
Ychwanegu'r Cynghorydd L James.

**2) Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**
Tynnu enw'r Cynghorydd M B Lewis.
Ychwanegu lle Llafur gwag.

**3) Pwyllgor y Rhaglen Graffu**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr M Durke ac M H Jones.
Ychwanegu enwau'r Cynghorwyr P M Black a T M White.

**4) Bwrdd Pensiwn Lleol**
Tynnu enw'r Cynghorydd T M White.
Ychwanegu'r Cynghorydd M B Lewis.

**Sylwer:** yn dilyn y bleidlais, diolchodd Arweinydd y Cyngor ac Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol i'r Cynghorydd M H Jones am ei gwaith fel Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

Diolchodd y Cynghorydd M H Jones iddynt am eu geiriau caredig. Talodd deyrnged i'r gefnogaeth a gafwyd gan swyddogion a chynghorwyr yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd.

## 146. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd yn ceisio diwygiad i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn ei symleiddio, ei wella a/neu ychwanegu ato mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

a) Rhan 3 "Cyfrifoldeb am Swyddogaethau" - "Cylch gorchwyl" - "Panel Ariannu Allanol".

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Dileu a thynnu "Panel Ariannu Allanol" o gylch gorchwyl Cyfansoddiad y Cyngor;

2) Cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau canlyniadol.

## 147. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd dau (2) 'Gwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn(cwestiynau) atodol hwnnw(hynny) yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno(arnynt) isod:

**Cwestiwn 1**
Gofynnodd y Cynghorydd A M Day i'r Aelod Cabinet perthnasol:

*"Oes modd darparu nodyn briffio i Gynghorwyr sy'n amlinellu'r trefniadau presennol ar gyfer edrych ar ôl y bobl ifanc hyn yn Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a amlinellwyd yn yr ymateb i bandemig COVID-19?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.32 am

**Cadeirydd**